

CANLLAWIAU

# Gweithwyr allweddol (hanfodol) y coronafeirws

Pwy sy'n weithwyr allweddol, os yw eu gwaith yn hanfodol i ymateb COVID-19.

## Cynnwys

[Iechyd a gofal cymdeithasol](#)

[Addysg a gofal plant](#)

[Gwasanaethau cyhoeddus allweddol](#)

[Llywodraeth leol a chenedlaethol](#)

[Bwyd a nwyddau angenrheidiol eraill](#)

[Diogelwch cyhoeddus a diogelwch gwladol](#)

[Trafnidiaeth](#)

[Gwasanaethau ariannol, cyfleustodau, a chyfathrebu](#)

---

## Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol

Mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- meddygon
- nyrsys
- bydwragedd

- parafeddygon
- gweithwyr cymdeithasol
- gweithwyr gofal
- staff rheng flaen arall ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwirfoddolwyr
- staff cymorth ac arbenigol sydd eu hangen i gynnal sector iechyd a gofal cymdeithasol y DU
- y rheini sy'n gweithio fel rhan o'r gadwyn gyflenwi iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cynhyrchwyr a dosbarthwyr meddyginiaeth ac offer diogelwch meddygol a phersonol

## **Gweithwyr addysg a gofal plant**

Mae hyn yn cynnwys:

- staff meithrinfeydd
- staff addysgu
- gweithwyr cymdeithasol
- gweithwyr proffesiynol addysg arbenigol y mae'n rhaid iddynt barhau'n weithgar wrth ymateb i COVID-19 er mwyn i'r dull hwn fod yn effeithiol

## **Gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus allweddol**

Mae hyn yn cynnwys:

- rheini sy'n hanfodol i gynnal y system gyfiawnder
- staff crefyddol
- elusennau a gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen allweddol
- rheini sy'n gyfrifol am reoli'r ymadawedig
- newyddiadurwyr a darlledwyr sy'n darparu gwasanaeth darlledu cyhoeddus

## **Gweithwyr llywodraeth leol a chenedlaethol**

Mae hyn ond yn cynnwys y swyddi gweinyddol hynny sy'n hanfodol i'r ymateb i COVID-19. Neu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol fel talu budd-daliadau. Mae hyn yn cynnwys asiantaethau llywodraethol a chyrrff hyd-braich.

# Gweithwyr bwyd a nwyddau angenrheidiol eraill

Mae hyn yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud â bwyd o ran:

- cynhyrchu
- prosesu
- dosbarthu
- gwerthu
- cludo,

Mae hefyd yn cynnwys y rheini sy'n hanfodol i ddarparu nwyddau allweddol eraill (er enghraifft meddyginiaeth hylendid a milfeddygol).

## Gweithwyr diogelwch cyhoeddus a diogelwch gwladol

Mae hyn yn cynnwys:

- heddlu a staff cymorth
- dinasyddion y Weinyddiaeth Amddiffyn
- personél contractwyr a'r lluoedd arfog sy'n hanfodol i gyflawni tasgau amddiffyn a diogelwch gwladol allweddol
- cyflogeion y gwasanaeth tân ac achub (gan gynnwys staff cymorth)
- staff yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- rheini sy'n cynnal diogelwch ar y ffin
- staff carchardai a'r gwasanaeth prawf
- rolau eraill sy'n berthnasol i ddiogelwch gwladol, gan gynnwys y rheini sydd dramor

## Gweithwyr trafnidiaeth

Mae hyn yn cynnwys y rheini a fydd yn cadw dulliau trafnidiaeth i fynd drwy'r awyr, ar ddŵr, ar yr heolydd a rheilffyrdd, a hynny i deithwyr a nwyddau. Ma hyn yn cynnwys y rheini sy'n gweithio ar systemau trafnidiaeth y mae cadwyni cyflenwi'n eu defnyddio.

# Gweithwy gwasanaethau ariannol, cyfleustodau, a chyfathrebu

Mae hyn yn cynnwys

- staff sydd eu hangen i barhau i ddarparu gwasanaethau ariannol hanfodol. Ggan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i weithwyr mewn:
  - banciau
  - cymdeithasau adeiladu
  - marchnadoedd ariannol
- y sectorau olew, nwy, trydan a dŵr (gan gynnwys carthffosiaeth)
- y sector technoleg gwybodaeth a seilwaith data,
- cyflenwadau diwydiant cynradd
- staff allweddol sy'n gweithio yn y sectorau canlynol:
  - niwclear sifil
  - cemegau
  - telathrebu. Gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i
    - weithrediadau'r rhwydwaith
    - peirianeg maes
    - staff canolfannau galwadau
    - seilwaith TG a data
    - gwasanaethau critigol 999 a 111
  - gwasanaethau post a dosbarthu
  - darparwyr taliadau
  - sectorau gwaredu gwastraff.

---

## PERTHNASOL

**[Addysg a gofal plant: coronafeirws](https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws)** (<https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws>)

- **[Amserau agor a gwasanaethau ysgolion: coronafeirws](https://llyw.cymru/sut-y-bydd-ysgolion-yn-gweithio-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws)** (<https://llyw.cymru/sut-y-bydd-ysgolion-yn-gweithio-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws>)
  - **[5 peth mae angen i chi eu gwybod cyn anfon eich plant i'r ysgol neu ofal plant \(coronafeirws\)](https://llyw.cymru/5-peth-mae-angen-i-chi-eu-gwybod-cyn-anfon-eich-plant-ir-ysgol-neu-ofal-plant-coronafeirws)** (<https://llyw.cymru/5-peth-mae-angen-i-chi-eu-gwybod-cyn-anfon-eich-plant-ir-ysgol-neu-ofal-plant-coronafeirws>)
-

# Cyhoeddwyd gyntaf

27 Mawrth 2020

# Diweddarwyd ddiwethaf

27 Mawrth 2020

## Rhan o

[Addysg a gofal plant: coronafeirws](https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws) (<https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws>)

[Aros gartref a chadw pellter cymdeithasol](https://llyw.cymru/aros-gartref-cadw-pellter-cymdeithasol) (<https://llyw.cymru/aros-gartref-cadw-pellter-cymdeithasol>)

[Awdurdodau lleol, gwasanaethau tai a landlordiaid cymdeithasol: coronafeirws](https://llyw.cymru/awdurdodau-ileol-gwasanaethau-tai-landlordiaid-cymdeithasol-coronafeirws) (<https://llyw.cymru/awdurdodau-ileol-gwasanaethau-tai-landlordiaid-cymdeithasol-coronafeirws>)

[Eich cyfrifoldebau fel cyflogwr: coronafeirws](https://llyw.cymru/eich-cyfrifoldebau-fel-cyflogwr-coronafeirws) (<https://llyw.cymru/eich-cyfrifoldebau-fel-cyflogwr-coronafeirws>)

[Gweithio i'r GIG a gofal cymdeithasol: coronafeirws](https://llyw.cymru/hio-ir-gig-a-gofal-cymdeithasol-coronafeirws) (<https://llyw.cymru/hio-ir-gig-a-gofal-cymdeithasol-coronafeirws>)